O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 1160 (Cy. 125)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A483 (Cylchfan Pont Abraham a'r Ffyrdd dynesu ati, Sir Gaerfyrddin) (Terfynau Cyflymder 40 MYA a 50 MYA) 2013

Gwnaed	*08 Mai 2013*
Yn dod i rym	*13 Mai 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain –Abergwaun (yr A48) a Chefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y gefnffordd" neu "y cefnffyrdd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 84 (1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed–Powys, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

Enwi a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Mai 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A483 (Cylchfan Pont Abraham a'r Ffyrdd dynesu ati, Sir Gaerfyrddin) (Terfynau Cyflymder 40 MYA a 50 MYA) 2013.

Cyfyngiadau

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o gefnffyrdd yr A48 a'r A483 a bennir yn Atodlen 1.

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn hwnnw o gefnffordd yr A48 a bennir yn Atodlen 2.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 08 Mai 2013

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

Darnau o gefnffyrdd yr A48 a'r A483 ym Mhont Abraham, Sir Gaerfyrddin.

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 MYA

Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham ar gefnffordd yr A48.

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Pont Abraham am bellter o 280 o fetrau.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 50 MYA

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A48 sy'n ymestyn tua'r gogledd o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol ochr ogleddol Cylchfan Pont Abraham am bellter o 600 o fetrau.